# ADEILADU DIWYLLIANT GWELL: DWEUD EICH DWEUD

Gall diwylliant olygu llawer o bethau i wahanol bobl. I rai, mae'n golygu ymweld ag orielau ac amgueddfeydd, i eraill gall olygu gwylio gêm neu rannu pryd o fwyd gyda ffrindiau a theulu. Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno bod diwylliant yn ei holl ffurfiau yn bwysig iawn i ni fel unigolion, fel cymunedau ac fel cenedl.

Ym mis Mai 2025 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen o'r enw *Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant*, gyda'r nod o ddarparu fframwaith ar gyfer gwasanaethau diwylliannol ledled Cymru. Oherwydd y gall diwylliant fod ag ystyr mor eang, yn y ddogfen hon diffinnir y sector diwylliant fel 'y celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau a'r amgylchedd hanesyddol.' Y tair blaenoriaeth yw:

- Mae Diwylliant yn Dod â ni Ynghyd
- Cenedl Diwylliant
- Mae Diwylliant yn Gydnerth ac yn Gynaliadwy

Yn 2026, ffurfiodd Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys bartneriaeth ddiwylliannol newydd. Ynghyd â'r blaenoriaethau hyn gan Lywodraeth Cymru, rydym yn gobeithio creu strategaeth ranbarthol ar gyfer ein gwasanaethau diwylliannol, ynghyd â chynllun blaenoriaeth ddiwylliannol ar gyfer pob awdurdod lleol.
I wneud hyn, mae angen eich help chi arnom. Bydd y sylwadau a gesglir yn yr arolwg hwn o gymorth i ni wrth i ni lunio'r weledigaeth ranbarthol, a byddant yn sicrhau, wrth i'n gwasanaethau diwylliannol ddatblygu ymhellach, fod y rheiny'n parhau i ddathlu nodweddion ein cynefin neu'n fannau sy'n diffinio ein cymunedau. Mae'r prosiect hwn yn cael ei arwain gan *Golwg Creadigol*, a gafodd ei ddewis gan y partneriaid rhanbarthol ar ôl proses dendro agored.



# ADRAN UN – DIWYLLIANT AC YSTYR

Yn yr arolwg hwn, pan fyddwn yn cyfeirio at 'ddiwylliant' rydym yn golygu 'y celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau a'r amgylchedd hanesyddol.' Gallai'r celfyddydau olygu orielau, perfformiadau, y theatr, ac ati, tra gallai'r amgylchedd hanesyddol olygu henebion, adfeilion neu atyniadau hanesyddol i ymwelwyr, ac ati. Efallai y byddwch chi'n defnyddio un, dau neu bob un o'r gwasanaethau hyn yn eu tro. Dylai eich atebion ddeillio o'ch meddyliau a'ch profiadau eich hun.

**1.1 Pa agweddau ar ddiwylliant ydych chi'n ymgysylltu â nhw fwyaf?**

- ◯ Y celfyddydau (e.e. orielau, theatrau, perfformiadau)
- ◯ Amgueddfeydd
- ◯ Llyfrgelloedd
- ◯ Archifau
- ◯ Yr amgylchedd hanesyddol (e.e. henebion, safleoedd treftadaeth)
- ◯ Mwy nag un o'r rhain

Arall (nodwch os gwelwch yn dda): ______________________________

**1.2 A yw diwylliant yn eich helpu i deimlo'n gysylltiedig â'r sir lle rydych chi'n byw?**

- ◯ Ydy, yn gryf
- ◯ Ydy, rhywfaint
- ◯ Niwtral / ansicr
- ◯ Ddim mewn gwirionedd
- ◯ Ddim o gwbl

Os ydyw, eglurwch sut: ______________________________

**1.3 A yw diwylliant yn eich helpu i gysylltu ag eraill?**

- ◯ Ydy, yn gryf
- ◯ Ydy, rhywfaint
- ◯ Niwtral / ansicr
- ◯ Ddim mewn gwirionedd
- ◯ Ddim o gwbl

Os ydyw, eglurwch sut: ____________________

**1.4 Sut gall diwylliant helpu i ddod â chymunedau at ei gilydd?**

- ◯ Digwyddiadau a gwyliau sy'n cael eu rhannu
- ◯ Mannau a lleoliadau cymunedol
- ◯ Adrodd straeon a threftadaeth leol
- ◯ Cyfranogiad y celfyddydau (e.e. gweithdai, perfformiadau)
- ◯ Cyfleoedd addysg a dysgu
- ◯ Arall (nodwch os gwelwch yn dda): ____________________

**1.5 Ym mha ffyrdd y gall diwylliant wella lles trigolion yn eich cymuned?**

- ◯ Cymorth lles meddyliol
- ◯ Cysylltiad cymdeithasol
- ◯ Cyfleoedd ar gyfer cynnal gweithgarwch corfforol
- ◯ Dysgu a datblygu sgiliau
- ◯ Ymdeimlad o berthyn/hunaniaeth
- ◯ Arall (nodwch os gwelwch yn dda): ____________________

**1.6 Ym mha ffyrdd y gall diwylliant helpu pobl ifanc i deimlo'n gysylltiedig â'r sir lle maent yn byw?**

- ◯ Digwyddiadau a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ieuenctid
- ◯ Cyfleoedd addysg greadigol
- ◯ Ymgysylltu digidol
- ◯ Dathlu hunaniaeth a hanes lleol
- ◯ Cyfleoedd gyrfa mewn diwylliant
- ◯ Arall (nodwch os gwelwch yn dda):____________________

**1.7 Sut ydych chi'n meddwl y gallai diwylliant helpu i hyrwyddo'r sir lle rydych chi'n byw fel lle i fyw, gweithio neu ymweld ag ef?**

- ◯ Hyrwyddo twristiaeth
- ◯ Digwyddiadau a gwyliau
- ◯ Treftadaeth a hanes
- ◯ Diwydiannau creadigol a swyddi
- ◯ Marchnata a phresenoldeb digidol
- ◯ Arall (nodwch os gwelwch yn dda): ______________________

**1.8 Beth ydych chi'n meddwl yw'r lleoedd/digwyddiadau diwylliannol pwysicaf yn y sir lle rydych chi'n byw?**

- ◯ Gwyliau mawr
- ◯ Amgueddfeydd ac orielau
- ◯ Llyfrgelloedd
- ◯ Safleoedd treftadaeth
- ◯ Digwyddiadau cymunedol
- ◯ Arall (nodwch os gwelwch yn dda): ______________________

**1.9 Ydych chi'n teimlo bod gennych gyfleoedd i helpu i ddylanwadu ar wasanaethau diwylliannol yn y sir lle rydych chi'n byw?**

- ◯ Ydw, digon o gyfleoedd
- ◯ Rhai cyfleoedd
- ◯ Cyfleoedd cyfyngedig iawn
- ◯ Dim cyfleoedd
- ◯ Ddim yn siŵr

Os ydych, rhowch enghraifft: ______________________

**1.10 Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach am ddiwylliant a'i ystyr yn y sir lle rydych chi'n byw?**

______________________

______________________

______________________

# ADRAN DAU – DIWYLLIANT CYFREDOL

Yn yr adran hon, rydym yn awyddus i glywed sut rydych chi'n graddio'r ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau diwylliannol yn y sir lle rydych chi'n byw.

**Graddiwch y datganiadau canlynol, gydag 1 fel y sgôr isaf (anghytuno yn gryf) a 5 fel y sgôr uchaf (cytuno'n gryf)**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 Rwy'n gwybod pa wasanaethau celfyddydol sydd ar gael yn y sir rwy'n byw ynddi. | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 2.2 Rwy'n gwybod pa amgueddfeydd sydd ar gael yn y sir rwy'n byw ynddi. | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 2.3 Rwy'n gwybod pa lyfrgelloedd sydd ar gael yn y sir rwy'n byw ynddi. | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 2.4 Rwy'n gwybod pa wasanaethau archifau sydd ar gael yn y sir rwy'n byw ynddi. | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 2.5 Hoffwn weld mwy o gyfleoedd ar-lein / rhithwir i ymgysylltu â diwylliant. | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 2.6 Mae gwasanaethau diwylliannol yn gwneud gwaith da yn adrodd straeon lleol. | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 2.7 Mae gwasanaethau diwylliannol yn rhoi croeso cynnes i mi pryd bynnag y byddaf yn eu defnyddio. | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 2.8 Mae gwasanaethau diwylliannol yn fy helpu i ddatblygu fel unigolyn. | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 2.9 Mae gwasanaethau diwylliannol yn helpu i wneud fy sir yn lle deinamig a chyffrous i'w alw'n gartref. | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 2.10 Mae gwasanaethau diwylliannol yn darparu gwasanaethau hanfodol i drigolion fy sir. | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |

# ADRAN TRI – EDRYCH I'R DYFODOL

Mae Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys wedi ffurfio partneriaeth ddiwylliannol newydd i ddatblygu gweledigaeth ddiwylliannol ranbarthol a gaiff ei rhannu ar draws y pedwar awdurdod. Yn adran tri, rydyn ni'n awyddus i glywed sut y byddech chi'n hoffi i ni ddatblygu'r weledigaeth hon.

**3.1 Beth ydych chi'n meddwl yw'r thema bwysicaf a ddylai lywio'r prosiect newydd hwn?**

- ◯ Cynefin, neu ymdeimlad o berthyn
- ◯ Lles
- ◯ Mynediad digidol
- ◯ Tegwch a chynhwysiant
- ◯ Hygyrchedd
- ◯ Twf economaidd
- ◯ Cynaliadwyedd amgylcheddol
- ◯ Arall (nodwch os gwelwch yn dda): ______________________________

**3.2 A oes unrhyw weithgareddau diwylliannol rydych chi'n teimlo sydd ar goll o'ch sir?**

- ◯ Mwy o wyliau/digwyddiadau
- ◯ Mwy o weithgareddau ieuenctid
- ◯ Mwy o ddiwylliant digidol/ar-lein
- ◯ Mwy o weithgareddau treftadaeth
- ◯ Mwy o brosiectau a arweinir gan y gymuned
- ◯ Mwy o weithgareddau a digwyddiadau cyfrwng Cymraeg
- ◯ Dim ar goll
- ◯ Arall (nodwch os gwelwch yn dda): ______________________________

**3.3 Pa mor bwysig yw diwylliant i dwristiaeth yn eich sir?**

- ◯ Hynod bwysig
- ◯ Pwysig iawn
- ◯ Cymedrol bwysig
- ◯ Ychydig yn bwysig
- ◯ Ddim yn bwysig
- ◯ Arall (nodwch os gwelwch yn dda): ______________________

**3.4 Ym mha ffyrdd ydych chi'n meddwl y gall cymunedau a thrigolion helpu i lunio gwasanaethau diwylliannol**

- ◯ Ymgyngoriadau cyhoeddus
- ◯ Prosiectau a arweinir gan y gymuned
- ◯ Gwirfoddoli
- ◯ Arolygon adborth
- ◯ Gweithio mewn partneriaeth
- ◯ Arall (nodwch os gwelwch yn dda): ______________________

**3.5 Beth allai eich annog i ymgysylltu â diwylliant ar draws y rhanbarth (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys)?**

- ◯ Gwell cysylltiadau trafnidiaeth
- ◯ Mwy o hyrwyddo/ymwybyddiaeth
- ◯ Costau is/digwyddiadau am ddim
- ◯ Rhaglennu mwy amrywiol
- ◯ Mynediad digidol
- ◯ Gwell cynrychiolaeth o'm diwylliant i
- ◯ Arall (nodwch os gwelwch yn dda): ______________________

**3.6 Beth allai helpu mwy o bobl, yn enwedig pobl ifanc, i ystyried gyrfaoedd yn y sector diwylliant?**

- ◯ Addysg a hyfforddiant
- ◯ Prentisiaethau
- ◯ Profiad gwaith
- ◯ Gwell cyflog a diogelwch swyddi
- ◯ Ymwybyddiaeth o gyfleoedd
- ◯ Arall (nodwch os gwelwch yn dda): ______________________

**3.7 Beth all gwasanaethau diwylliannol ei wneud i helpu mwy o bobl i deimlo'n gysylltiedig â'r sir y maen nhw'n byw ynddi?**

- Rhaglennu mwy cynhwysol
- Dathlu hunaniaeth leol
- Allgymorth cymunedol
- Addysg ac ymgysylltu
- Lleoliadau/gwasanaethau hygyrch
- Arall (nodwch os gwelwch yn dda): ______________________

**3.8 A oes ffyrdd rydych chi'n teimlo y gallai'r awdurdodau lleol weithio'n well gyda'i gilydd i wella gwasanaethau diwylliannol?**

- Rhannu cyllidebau/adnoddau
- Digwyddiadau a rhaglennu ar y cyd
- Gwell cyfathrebu
- Marchnata rhanbarthol
- Rhannu llwyfannau digidol
- Arall (nodwch os gwelwch yn dda): ______________________

**3.9 Pe baech chi'n gyfrifol am ysgrifennu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer yr ardal, beth fyddai eich blaenoriaeth bwysicaf?**

- Hygyrchedd i bawb
- Hunaniaeth leol gref
- Twf economaidd
- Cynaliadwyedd
- Lles cymunedol
- Arall (nodwch os gwelwch yn dda): ______________________

**3.10 Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhannu â ni?**

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

# ADRAN PEDWAR – AC YN OLAF, OND NID LLEIAF – GWYBODAETH AMDANOCH CHI

Ni ddylai'r adran hon amharu gormod arnoch ond mae'n caniatáu inni wneud yn siŵr ein bod wedi siarad ag ystod o bobl ar draws y rhanbarth.

**4.1 Ym mha sir ydych chi'n byw ynddi?**

- ◯ Sir Gaerfyrddin
- ◯ Ceredigion
- ◯ Sir Benfro
- ◯ Powys
- ◯ Arall (nodwch os gwelwch yn dda): ______________________________

**4.2 Eich grŵp oedran**

- ◯ 12–18
- ◯ 19–30
- ◯ 31–50
- ◯ 51–65
- ◯ Dros 65 oed

**4.3 Pa mor dda ydych chi'n siarad Cymraeg?**

- ◯ Rwy'n siaradwr Cymraeg rhugl
- ◯ Rwy'n dysgu Cymraeg ar hyn o bryd
- ◯ Mae gen i wybodaeth sylfaenol o'r Gymraeg
- ◯ Dydw i ddim yn siarad unrhyw Gymraeg

## DIOLCH!

Golwg Creadigol
Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government
Cyngor Sir Gâr / Carmarthenshire County Council
Cyngor Sir Ceredigion County Council
Cyngor Sir Penfro / Pembrokeshire County Council
Powys